CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 28ain TACHWEDD 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Mike Jones, Mr Derek Hughes, Mr Ian Owen, Mr Cynrig Jones, Mr Einion Parry Williams, Mr John Pritchard a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Mr Raymond Evans & Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

1 CROESO, DIOLCHIADAU & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod llawn cyntaf gan y Cadeirydd.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol** – nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.
Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd Sirol, Mr Dafydd Roberts.

2.1 Trafodaeth Cyllideb 2018-2019 yn parhau.

2.2 Penderfyniad Pwyllgor Gwaith – trosglwyddo eiddo y Carchar a'r Llys i Gyngor Tref Biwmares.

2.3 Adroddiad Llifogydd diweddaraf yr Ynys yn arbenning y tirlithriad ar hyd yr A545 o Borthaethwy I Fiwmares.

2.4 Skip Cymunedol – adroddiad fod rhestr disgwyl yn bodoli.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad.

3 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (24ain Hydref 2017).

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 24ain Hydref 2017 yn gywir (DH/LJ).

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 Nodwyd fod materion angen codi wedi ei rhestru ar y rhaglen.

5 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

5.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Hydref 2017 yn cynnwys cysoniad a datganiad y banc.

5.2 **Taliadau Mis Tachwedd 2017.**

Rhif Siec.	Taler	Disgrifiad	Swm
201262	The Poppy Appeal	Cyfraniad	£20.00
201263	O G Jones	Torri Llwybrau	£336.00

6 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

6.1 Cais Llawn – Lledu Mynedfa Cerbydau yn:
LLEOLIAD – Bryn Teg, Pentre Berw, Gaerwen (Rhif Cais - 33C296B).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

7 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

7.1 Cais Adran 73 Diwygio Amodau Caniatad Cynllunio Rhif 33C152C & 33C152B
LLEOLIAD – Ty Capel Pensarn, Pentre Berw, Gaerwen – 33C152D/VAR – **TYNNU'N OL.**

8 MATERION CAEAU CHWARAE.

8.1 **Archwiliad** - yn dilyn trosglwyddo'r Polisi Yswiriant i ddwylo'r Cyngor Cymuned, cafwyd trafodaeth ynghylch a amseru'r archwiliad o'r caeau chwarae - Cytunwyd aelodau y dylai ymgymeryd archwiliad o'r caeau chwarae pob 6 mis.

9 MATERION LLWYBRAU.

9.1 Llwybr 16 – dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Arwel Evans o'r Cyngor Sir ac wedi cysylltu gyda Cyng John Pritchard er mwyn darganfod yr union safle sydd angen sylw gwella gwyneb ar hyd darn o'r llwybr. Gadawyd y mater yn nhwylo Cyng John Pritchard.

Arwyddo.....

10 MATERION PRIFFYRDD.

10.1 **Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – nodwyd ymateb y Cyngor Sir yn awgrymu cysylltu gyda'r Post Brenhinol er mwyn ail-leoli'r blwch postio. Nid oedd aelodau yn hapus gyda'r ymateb a gofyn i'r Clerc anfon llythyr I Bennaeth yr Adran.

10.2 **Safle Gofeb Gaerwen** – cytunwyd pasio'r gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorydd Sirol gan nad oedd ymateb wedi ei dderbyn.

10.3 **Stryd & Theras y Capel, Gaerwen –** yn dilyn llythyr 5/12/2016, roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt rhannu gwybodaeth pryderon gor-yrru a cyfyngu pwysau ar hyd y Teras gan ei fod heb dderbyn unrhyw ymgynghoriad a bwriedir. Penderfynwyd ychwanegu hwn at cofnod 10.2 uchod gan nad oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw ymateb.

10.4 **Allt Lon Berea –** derbyniwyd cwyn a lluniau yn cadarnhau fod angen sylw i'r gordyfaint ar ffens rhwng ar A5 a Capel Berea a gofyn i'r Clerc anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd.

10.5 **Gorchymyn (Gwahaddiad Traffig Trwodd Dros Dro) (Lōn Ceint i Bentre Berw) 2017 -** nodwyd y daw'r gorchymyn i rym ar 14 Tachwedd 2017 a disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith mewn diwrnod.

10.6 **Gorchymyn (Gwahaddiad Traffig Trwodd Dros Dro) (Lōn Groes, Gaerwen) 2017 -** nodwyd y daw'r gorchymyn i rym ar 4ydd Rhagfyr 2017 a disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith erbyn 12fed Rhagfyr 2017.

10.7 **Cais Goleuadau Stryd yn Pentre Berw –** darllenwyd llythyr wedi ei dderbyn yn gofyn i'r Cyngor ystyried gosod rhagor o lampau ar ffyrdd o gwmpas y pentref ac fe ddangoswyd y safeloedd dan sylw. Penderfynwyd cefnodi'r cais mewn egwyddor ac anfon copi o'r llythyr i'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ymweld a'r pentref er mwyn ymateb gyda sylwadau ac unrhyw argymellion a cymorth er mwyn symud y fater yn ei flaen.

10.8 **Gorlifo ger Stad Tyn Rhos –** daeth Cyng Cynrig Jones a mater gerbron y Cyngor am y gorlifo ac anhwasterau achoswyd yn ystod y glaw trwm diweddar – gofynwyd iddo rhannu'r gwybodaeth gyda Cyng Sirol Dafydd Roberts er mwyn adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

11 GOHEBIAETH.

11.1 **Pwyllgor Safonau – cadarnhad fod Cyng Iorwerth Roberts (Bryngwran) a Cyng Keith Roberts (Bae Trearddur) wedi eu ethol fel y DAU gynrychiolydd ar y Pwyllgor.**

11.2 **Dogen Heriau Gwasanaeth Plismona Gogledd Cymru – nodwyd y ddogfen ac ymestyn gwahaoddiad i'r Heddlu i'r cyfarfod yn mis Chwefror 2018.**

11.3 **Ymgynghoriad Wylfa Newydd – nodwyd er gwybodaeth – manylion llawn ar wefan y Cyngor Sir.**

Arwyddo.....

11.4 Dogfen Ymgynghori Cyllideb y Cyngor Sir 2018/19 – nodwyd er gwybodaeth – manylion llawn ar wefan y Cyngor Sir gyda dyddiadau y sawl cyfarfodydd sydd wedi ei drefnu.

12 ADRODDIADAU

12.1 Pwyllgor Grwp Rhandeiliad 9/11/2017 – cafwyd adroddiad byr oddiwrth Cyng Einion Williams ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.

12.2 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – 21/11/2017 – cafwyd adroddiad cryno gan Cyng Einion Williams ar sawl faterion a drafodwyd yn y cyfarfod – cyfarfod nesaf 15/3/2018.

12.3 Pwyllgor y Ganolfan – cafwyd adroddiad byr gan Cyng Ian Owen fod gwelliannau wedi digwydd yn cynnwys lamp newydd tu allan ac fod angen gwario £5,000 er mwyn atgyweirio'r stafell gefn y Ganolfan.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 23ain IONAWR 2018.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iddynt. Clowyd y cyfarfod am 8:05yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.